



## YSGOL Y GELLI

Ffordd Bethel , Caernarfon ,Gwynedd, LL55 1DU

Ffôn/Phone: 01286 674847 E-bost /E-mail: AlisonHalliday@gwynedd.llyw.cymru

Pennaeth / Headteacher: Mrs. Alison Halliday B.Add

Annwyl Rieni a Gwarcheidwyr,

6ed Mai 2020

Gobeithio eich bod chi a'ch teuluoedd yn cadw'n iach a diogel yn ystod y cyfnod rhyfeddol ac anodd yma.

Mae bywyd ysgol fel yr ydym yn ei adnabod wedi newid yn aruthrol ers Mawrth 24ain. Mae y Cwricwlwm Cenedlaethol wedi ei ohirio ac mae swyddogaeth yr ysgol wedi newid yn llwyr. Mae drysau'r ysgol yn parhau ar agored i ddarparu gofal i blant gweithwyr allweddol ond mae'n bwysig cofio bod yr aelodau staff sydd ar y safle ar gael i'ch cefnogi unrhyw bryd – am sgwrs neu i geisio datrys problemau technolegol.

Bellach mae'r ysgol wedi symud i ddarparu modelau 'dysgu o bell' i'ch plentyn drwy gymysgedd o blatfformau digidol sef Purple Mash, Google Classroom Hwb / Gsuite , Reading Eggs a Mathletics. Rydym hefyd yn ceisio rhannu syniadau diddorol a hwyliog yn achlysurol drwy ein tudalen Facebook. Mae'r gweithgareddau hyn i gyd yn cael eu darparu i ceisio cynnal diddordeb ac ymrwymiad eich plentyn mewn dysgu .

### Dysgu o Bell – 3 Peth Pwysig

1. Ein prif flaenoriaeth yn ystod y cyfnod yma yw eich bod chi a'ch teulu yn aros adref ac yn cadw'n iach a diogel.
2. Mae eich iechyd a lles emosiynol, meddyliol a corfforol chi a'ch plentyn yn flaenoriaeth.
3. Mae cynnal y bethynas a cyswllt efo chi fel rhieni ac efo'r plant yn allweddol.

Rydym i gyd yn parhau i fod yn rhan o gymuned Ysgol y Gelli ac mae'r modelau dysgu o bell yn ffordd ddiogel i staff yr ysgol gysylltu a chyfathrebu efo'r plant, y plant gysylltu efo'i gilydd a chynnal cyswllt fel dosbarth efo'i gilydd.

Un peth pwysig iawn i gofio yn ystod y cyfnod digynsail yma yw **nid oes disgwyl i chi ail-greu sefyllfa ysgol yn eich cartref a dod yn athrawon i'ch plentyn/plant dros nos.** Gwnewch beth sy'n bosib yn unig. Mae'r tasgau yn rhai hwyliog a phenagored sy'n canolbwyntio ar fwynhau, bod yn greadigol, chwarae a creu, cynnal sgiliau darllen, rhif a digidol. Mae'r ysgol wedi symud i drefn o osod tasgau penagored i'ch plentyn sy'n rhedeg dros dair wythnos ac mae cyfle i ddewis o'u plith er mwyn eu cwblhau. Mae'r tasgau hyn wedi eu gosod mewn thema sy'n gyffredin i'r teulu cyfan er hwylustod i chi. Mae'r tasgau yn gymysgedd o dasgau y gall eich plant eu cwblhau yn annibynnol ac o fewn cyfnod cymharol fyr.

Yn ogystal a'r gweithgareddau dysgu o bell mae'r ysgol yn eu gosod, mae modd l'ch plentyn wneud defnydd o Reading Eggs, Athletics a TTRockstars. Mae nifer fawr o gyfleoedd ychwanegol hefyd i ddysgu drwy Bitesize a Hwb. Cofiwch hefyd am bwysigrwydd cadw'n ffit a gwneud yr amser i fynd am dro, i feicio neu ddilyn gweithgareddau Joe Wicks – mae rhain hefyd yn cyfleoedd i ddysgu a chael hwyl!

### **Cadw Cyswllt**

Mi fydd aelodau staff yn ceisio gynnal y cyswllt efo chi drwy alwad ffon bob wythnos. Mae hwn yn gyfle pwysig i gael sgwrs efo'ch plentyn neu/a chithau. Er nad ydym yn eich gweld bob dydd, mae ein gofal a consyrn amdanoch a tuag atoch yn parhau.

Mae'r aelodau staff i gyd mewn cyswllt cyson efo'ch plant drwy eu dosbarth digidol. Mae'n bwysig cadw mewn cof bod yr athrawon hefyd yn gweithio o adref gan amlaf ac yn wynebu yr un heriau a nifer fawr ohonoch chi yn ystod y cyfnod di-gynsail yma. Hoffwn bwysleisio bod iechyd a lles yr holl aelodau staff hefyd yn flaenoriaeth i mi a gwn y gwnewch barchu eu hawl i gyfnodau tawel ac ymlaciol efo'u teulu drwy gyfyngu eich cyswllt neu ymholiadau i oriau ysgol yn unig. Gofynnaf yn garedig i chi fod yn amyneddgar wrth ddisgwyl am ymateb.

### **Manylion Cyswllt :**

Cysylltwch gyda'r aelod staff perthnasol drwy'r ebyst isod. Cysylltwch gyda'r athro am ymholiadau am waith dosbarth / gweithgareddau dysgu o bell. Cysylltwch gyda'r pennaeth am unrhyw ymholiad arall. Ffoniwch yr ysgol ar bob cyfrif mewn argyfwng.

<b>Mrs Alison Halliday - Pennaeth</b>	<b>alisonhalliday@gwynedd.llyw.cymru</b>
<b>Mrs Buddug Roberts – Blwyddyn 6</b>	<b>RobertsB116@Hwbcymru.net</b>
<b>Mr Ian Davies - Blwyddyn 5</b>	<b>DaviesI208@Hwbcymru.net</b>
<b>Mrs Sharon Ray – Blwyddyn 4</b>	<a href="mailto:sharonray@gwynedd.llyw.cymru"><b>sharonray@gwynedd.llyw.cymru</b></a>
<b>Miss Llio Jones – Blwyddyn 3</b>	<a href="mailto:lliomajones@gwynedd.llyw.cymru"><b>lliomajones@gwynedd.llyw.cymru</b></a>
<b>Mrs Meinir Higgins – Blwyddyn 2</b>	<b>Cysylltu drwy'r dosbarth / google classroom</b>
<b>Mrs Eleri Hallam – Blwyddyn 1</b>	<b>Cysylltu drwy'r dosbarth / google classroom</b>
<b>Mrs Angharad Rhys – Derbyn</b>	<b>angharadwynrhys@gwynedd.llyw.cymru</b>
<b>Miss Hana Davenport – Meithrin</b>	<a href="mailto:hanawyndavenport@gwynedd.llyw.cymru"><b>hanawyndavenport@gwynedd.llyw.cymru</b></a>
<b>Ymholiadau ADY</b>	<b>angharadwynrhys@gwynedd.llyw.cymru</b>
<b>Problemau Digidol / Cyfrifiadur</b>	<b>DaviesI208@hwbcymru.net</b>
<b>Ymholiadau am Ddarpariaeth Gofal Gweithwyr Allweddol/ Plant Bregus</b>	<b>alisonhalliday@gwynedd.llyw.cymru</b>

### **Croeso'n ôl Mrs Roberts**

Mae Mrs Buddug Roberts wedi ail-gydio yn ei rôl fel Dirprwy ac Athrawes Blwyddyn 6 yr ysgol ers dydd Llun, Mai 4ydd. Rydym yn eithriadaol o falch o'ch cael yn ôl. Croeso cynnes i chi Mrs Roberts! Mae'r broses o drosglwyddo Google Classroom Blwyddyn 6 o gyfrif Gsuit i gyfrif Hwb wedi cychwyn ac mae disgyblion Blwyddyn 6 yn gweud joban wych o wneud hyn ei hunain. Diolch yn fawr i Mr Davies am ddarparu gwaith i Blwyddyn 6 dros yr wythnosau diwethaf a gwneud gwaith arbennig yn darparu gwaith a gofal dros ddau ddosbarth! Diolch hefyd i Mr Rhys ap Elwyn am ei holl ofal a gwaith arbennig efo Blwyddyn 6 yn ystod secondiad Mrs Roberts.

Edrychwch ar ôl eich hunain a'ch teulu – Cadwch yn ddiogel ac iach.

Cofion cynnes,

*Mrs Halliday*